**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y **2il o Ionawr 2025** am **7:00 yr hwyr.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Jess Williams, Iddon Edwards (Penmorfa) Gwilym Evans (Prenteg) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard (Pentrefelin) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd). Clifford Williams (Garndolbenmaen) a Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) |
| 4. | Datgan buddiant: | Gwilym Evans – Eitem 14 (Cynllunio)<br>Richard Williams – Eitem 14 (Cynllunio) |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | GE yn cynnig ac JW eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | Materion Prenteg - Cais i ail ddynodi B4410 i ddosbarth A rhwng Prenteg a Garreg. Dyma'r ateb a dderbyniwyd gan yr Uned Draffig:<br><br>"Dwi wrthi'n ceisio cysylltu gyda'r Swyddog sydd efo chyfrifoldeb dros Orchmynion Statudol yng nghangen gorchmynion Llywodraeth Cymru. Mae'r broses yr ydych eisiau ei weithredu yn ofnadwy o anarferol ac o'r wybodaeth sydd wrth law, dim ond yr unwaith yn y 20 mlynedd diwethaf mae hyn wedi ei gyflwyno ac yna ei weithredu, gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y broses.<br><br>Ar ôl derbyn y wybodaeth berthnasol mi fyddwn allu eich diweddaru."<br><br>Gofynnwyd i mi gysylltu yn ôl gyda'r Uned Draffig i ofyn beth yw'r ffordd ymlaen. Os yw hyn wedi cael ei wneud o'r blaen, yna mae yna gynsail i'w wneud eto.<br><br>Arwydd "STOP" Prenteg – GE yn dal i fod heb dderbyn ymateb i'r cais yma.<br><br>Coeden yn y maes parcio yn dal heb gael ei thorri. Y Clerc i fynd ar drywydd y mater.<br><br>** JJ yn ymuno yn y cyfarfod. |

| | | |
|---|---|---|
| 7. | Mynwentydd | <u>Mynwent Prenteg</u><br>Adroddwyd fod cerrig wedi cael eu gadael tu ôl i'r giât. Gofynnwyd i'r Clerc anfon e-bost at y torrwr beddi i'w atgoffa o'r rheol ganlynol - "*Mae pob ymgymerwr, neu ei asiant, sydd yn agor unrhyw fedd, yn gyfrifol am dacluso ar ei ôl a chludo unrhyw bridd a cherrig na ddefnyddir i gau'r bedd o'r fynwent o fewn wythnos i ddyddiad yr angladd. Oni wneir hyn, gall y Cyngor wneud y gwaith ac adennill y costau oddi wrth yr ymgymerwr.*"<br><br>Adroddwyd fod yna oleuadau wedi cael eu gosod ar fedd yn y fynwent. Mae'r goleuadau yma wedi cael eu tynnu yn unol â'r reol ganlynol - "*Ni chaniateir rhyddhau balŵns a llusernau na gosod balŵn, goleuadau solar, clychau gwynt neu unrhyw eitem sy'n rhyddhau golau neu sain. Ystyrir bod eitemau o'r fath yn cael effaith niweidiol ar gymeriad y mynwentydd neu ar y tawelwch a ddisgwylir gan bartïon angladd ac ymwelwyr.*"<br><br><u>Mynwent Bethel, Golan</u><br>Y Contractwr yn gobeithio cychwyn ar y gwaith yr wythnos nesaf.<br><br><u>Eglwys Llanfihangel y Pennant, Cwm Pennant</u><br>Adroddwyd fod ambell i deilsen grib wedi dod i ffwrdd o do'r Eglwys yn ystod y storm ddiweddar. Y Clerc i adrodd am hyn i swyddfa'r Eglwys yng Nghymru. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus | <u>Hendre Cennin</u> - Adroddwyd fod yna goed wedi disgyn yn dilyn y storm ddiweddar. Y Clerc i gysylltu gyda chontractwr i dorri'r coed.<br><br><u>Llwybr ger Canolfan Gymdeithasol Golan</u> - Soniodd y Clerc ei bod wedi cysylltu hefo'r Adran Llwybrau Cyhoeddus i ofyn a yw'r llwybr yma wedi ail agor. Dim ymateb hyd yma. Y Clerc i fynd ar drywydd y mater hwn. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Golan -</u> Adroddwyd bod yna lawer o drigolion yr ardal wedi bod heb wasanaeth llinell ffôn am wythnosau yn dilyn y storm ddiweddar. Soniwyd ei bod yn amhosibl cael siarad ag unrhyw un wrth gysylltu â BT, fod pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaeth ar-lein (*chat*) bob amser. Gofynnwyd y cwestiwn yn y cyfarfod am y rhai bregus ac oedrannus o fewn ein cymunedau, yn enwedig yng nghefn gwlad, sydd yn ddibynnol ar linell ffôn ac sydd heb ffôn symudol a'r gallu i fynd ar-lein? Mae hyn yn beryglus ac yn achos o bryder mawr. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Liz Saville Roberts i adrodd am y pryder yma. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Adroddwyd fod yna goeden yn gwyro i'r ffordd ar hyd Lôn Fudr, Golan. Y Clerc i adrodd am hyn.<br><br><u>Prenteg</u> – Soniwyd fod yr arwydd 20mya yn gwyro i'r ffordd. Y Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Dywedwyd fod ffens ger Hendre Selar wedi dod i ddiwedd ei hoes a bod yna dipyn o gwymp (*drop*) i lawr i'r cae. Y Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Adroddwyd fod yna ddŵr ar draws y ffordd i Dai Newyddion. Mae'n debyg fod tyllau yn y wal wedi blocio. Y Clerc i adrodd am hyn.<br><br><u>Bryncir</u> – Dŵr yn parhau i ddod i'r ffordd ar y bont ger Melin Llecheiddior. Soniwyd nad oes unrhyw le i'r dŵr fynd. Y Clerc i adrodd am hyn eto.<br><br>Ym mis Rhagfyr bu i ddamwain ddigwydd ar y ffordd rhwng Bryncir a Thafarn Faig. Soniwyd fod traffig cyn iddynt gau'r ffordd o gylchfan Penygroes a chyffordd Glandwyfach yn cael eu hanfon ar hyd ffyrdd cul yr ardal. Nid yw'r ffyrdd yma yn addas ar gyfer traffig trwm i'r ddau gyfeiriad ac y dylai cynllun gael ei wneud ar gyfer y dyfodol petai yna ddigwyddiad tebyg. Y Clerc i gysylltu gyda'r Heddlu/Cyngor i weld os yw'n bosibL cael cynllun pendant, er enghraifft bod traffig yn defnyddio ffordd Pant Glas i Felin Llecheiddior i deithio i gyfeiriad Porthmadog ac yn defnyddio ffordd gefn Garndolbenmaen i gyfeiriad Dafarn Faig i deithio i gyfeiriad Caernarfon.<br><br><u>Garndolbenmaen</u> – Dim i'w adrodd<br><br><u>Pentrefelin</u> – Dim i'w adrodd<br><br><u>Penmorfa</u> - Adroddwyd fod dŵr yn gollwng o'r lander. IE i edrych i weld beth sydd yn ei achosi cyn y cyfarfod nesaf. |
| 10 | Cyllideb 2025/26 a Gosod Praesept | Cynhaliwyd Is-bwyllgor Cyllid ar y 12fed o Ragfyr, 2024 ble gyflwynodd adroddiad gan y Clerc yn dangos:<br><br>- Gwariant y Cyngor hyd at 31/12/2024<br>- Amcangyfrif o'r gwariant hyd at 31/03/2025<br>- Cyllideb drafft 2025– 2026 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Adroddwyd nad oedd llawer o newid i'r gyllideb – mân newidiadau yn unig i gyfarfod ag unrhyw gynnydd blynyddol mewn pethau megis treth incwm a chostau aelodaeth ayb.<br><br>Argymhellwyd cadw arian wrth gefn ar gyfer y canlynol:<br>- Hysbysfwrdd newydd i Benmorfa<br>- Posibilrwydd o orfod prynu tir er mwyn ehangu Mynwent Bethel, Golan, yn y dyfodol.<br><br>Anfonwyd copi o'r adroddiad, cyllideb a chofnodion yr is-bwyllgor at y cyngor llawn cyn y cyfarfod misol.<br><br><u>Penderfyniad:</u> Cadw'r praesept yn £18,000 am y flwyddyn 2025/2026. GE yn cynnig a MLW yn eilio a phawb yn cydweld. |
| 11 | Asesid Risg | Dim newid. GE yn cynnig ei dderbyn a JJ yn eilio. |
| 12 | Gohebiaeth | a. Cyngor Gwynedd – Caead argyfwng o Gapel Pennant i Lodge Cwm Pennant – adfer polyn diffygiol – 09/12/24 (dyddiad wedi pasio)<br>b. Adran Gyllid Cyngor Gwynedd – Praesept 2025/26 – Y Clerc i ymateb cyn y 27ain o Ionawr, 2025. |
| 13 | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Daniel Mahoney - Blwch Ffôn Cwmystradllyn. Y Clerc wedi ymateb i Mr Mahoney yn dweud fod y Cyngor Cymuned wedi cael cadarnhad gan BT nad ydynt yn bwriadu cael gwared â'r blychau ffôn yng Nghwmystradllyn a Chwm Pennant oherwydd diffyg signal ffôn yn yr ardal.<br>b. Law Commission Consultation on Burial and Cremation Law Reform – rhannwyd y ddogfen.<br>c. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – rhannwyd y ddogfen. |
| 14 | Cynllunio | Rhestrau: 2/12, 9/12, 16/12, 23/12<br><br>Ceisiadau Cynllunio:<br><br>C24/1075/36/LL – Bryn 'Refail Isaf, Garndolbenmaen – Adeiladu to dros iard wartheg. Dim gwrthwynebiad.<br><br>C24/1079/44/LL - Traeth Cil-Llidiart, Prenteg - Codi silo biswail, tanc elifol o dan y ddaear a gwaith cysylltiedig. Dim gwrthwynebiad. Ni chymrodd GE ran yn y drafodaeth yma. |

| | | |
|---|---|---|
| 15 | Materion Ariannol | **Ceisiadau am arian:**<br>- Neuadd Prenteg<br>- Canolfan Pentrefelin<br>- Neuadd a Chae Chwarae Garndolbenmaen<br>- Neuadd Goffa Penmorfa<br><br>**Monitro'r Gyllideb:** Dim Gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br>Cyflog Clerc = £326.87<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £81.62<br>Veolia = £30.97<br>HSBC = £8.00<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>Yr Wylan (Hysbyseb Tachwedd a Rhagfyr) = £40.00<br>Waterworks (Llochesi Bws) = £280.00<br>Dylan Edwards (Mynwentydd/Llwybrau) = £2,930.00<br><br>**Derbyniadau:**<br><br>Llog = £196.48<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>Pritchard & Griffiths = £140.00<br><br>**Balansau Cyfrifon Banc:**<br><br>**Cadw:** £42,855.93<br>**Cyfredol:** £1,220.51 |
| 16 | Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan | - Diolch i bawb am dorri'r coed yn dilyn storm Darragh<br>- Praesept<br>- Datgan pryder am wasanaeth BT<br>- Diffyg cynllun ar gyfer cau ffyrdd yn dilyn digwyddiad megis damwain<br>- Llongyfarch Ysgol y Gorlan a Rhys ac Annest Glyn am y gwaith ysgrifennu a chyfansoddi - cystadleuaeth Carol yr Ŵyl. |